



Ymchwil Iechyd  
a Gofal **Cymru**  
Health and Care  
Research **Wales**



# 2022 - 2023

## Adroddiad blynyddol



Canolfan **PRIME Cymru**  
**PRIME Centre Wales**

# Cynnwys

Rhagair gan Gyfarwyddwr y Ganolfan.....	3
Nodau ac amcanion Canolfan PRIME Cymru.....	4-5
Pwy yw pwy - cwrdd â'r tîm.....	6-8
Metrigau craidd.....	9-10
Uchafbwyntiau newyddion ac effaith.....	11-16
Cyfranogiad y cyhoedd a chleifion .....	17
Cyfarfod blynyddol.....	18
Cyhoeddiadau allweddol o'n pecynnau gwaith .....	19-23
Myfyrdodau ac edrych ymlaen.....	24

# Rhagair

Cyfarwyddwr y Ganolfan, yr Athro Adrian Edwards

Mae gofal sylfaenol a gofal brys yn newyddion tudalennau blaen - problemau gyda staffio, argaeledd ac amseroedd ymateb, ansawdd, diogelwch a phrofiad cleifion. Mae Canolfan PRIME Cymru yn ymchwilio i bynciau sy'n cefnogi'r sector — ar gyfer cleifion, y cyhoedd, aelodau staff a'r GIG yn gyffredinol. Mae dros 90% o'r holl gyfarfyddiadau gofal iechyd yn digwydd mewn gofal sylfaenol a gofal brys, a'r dystiolaeth ledled y byd yw bod cryfder gwasanaeth iechyd gwlad yn ddibynnol ar gryfder y gwasanaethau mae pobl yn mynd atynt yn gyntaf.

Mae ein gwaith yn dangos effaith wrth gefnogi'r sector, ar draws disgyblaethau. Disgrifir sawl enghraifft yn yr Adroddiad hwn. Yn y flwyddyn adroddiad hon rydym ni hefyd wedi cael cydnabyddiaeth allanol am y gwaith a'r effaith a gafwyd drwy ganlyniadau Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil prifysgolion y DU. Cyflwynwyd gwaith y grŵp gofal brys ar PRISMATIC — nodi risg pobl

hŷn ar gyfer ymyrraeth ragweithiol drwy Brifysgol Abertawe.

Cyflwynwyd y gwaith ar Benderfyniadau a Rennir, sydd bellach yn rhan annatod mewn Canllawiau NICE, drwy Brifysgol Caerdydd.

Cyflwynwyd yr offeryn FRAIT ar gyfer asesu gwydnwch teuluol ac ymyrraeth gan Ymwelwyr Iechyd gan Brifysgol De Cymru. Mae gwaith grŵp Prifysgol Bangor ar CARIAD ar gyfer cefnogi gofal diwedd bywyd yn y cartref wedi derbyn proffil cyfryngau lleyg eang a chydabyddiaeth polisi cenedlaethol.

Felly mae gofal sylfaenol a gofal brys yn sector dan straen arbennig. Mae gwaith Canolfan PRIME yn mynd i'r afael yn uniongyrchol â'r materion sy'n bwysig i ni i gyd trwy ymchwil gyfannol o ansawdd uchel, amlddisgyblaethol, sy'n cydnabod cymhlethdod iechyd a gofal cymdeithasol mewn poblogaeth ag anghenion cynyddol. Mae'r sylfaen



*Professor Adrian Edwards, Professor of General Practice, Division of Population Medicine, Cardiff University; Director, PRIME Centre Wales, and Health and Care Research Wales Evidence Centre*

dystiolaeth i gefnogi gwaith y sector yn hanfodol. Rwy'n falch iawn o rannu ein cyflawniadau gyda chi drwy'r 8fed Adroddiad Blynnyddol PRIME hwn.

## ***Bydd Canolfan PRIME Cymru yn parhau i fod o fudd i'r GIG a phobl Cymru drwy ddarparu sylfaen academaidd a thystiolaeth gref i ategu gofal sylfaenol a gofal brys***

Mae ein **gwaith cydweithredol** rhwng **academyddion** blaenllaw, **unigolion**, **cymunedau** a sefydliadau yn hanfodol er mwyn **cyd-gynhyrchu** ymchwil o ansawdd uchel ar **raddfa fawr gydag effaith**.

Mae hyn yn sail i welliannau i wasanaethau sylfaenol a gwasanaethau brys, gan ddod â gwasanaethau arloesol yn agosach at gymunedau, grymuso cleifion a theuluoedd yn eu gofal, gwneud gwasanaethau yn fwy integredig a pherson ganolog, a sicrhau bod poblogaeth Cymru yn cael y budd mwyaf o'r adnoddau iechyd a gofal cymdeithasol sydd ar gael drwy fabwysiadu dull gofal iechyd teg sy'n seiliedig ar werth.

Mae cydweithrediad amlddisgyblaethol unigryw PRIME yn un gymuned ymchwil ledled Cymru sy'n ymchwilio i ofal sylfaenol a gofal brys yng Nghymru er mwyn cyflawni manteision pwysig i'n grŵp, y GIG, Llywodraeth Cymru, a phobl Cymru, trwy'r canlynol:

- Creu canolfan ragoriaeth mewn gofal sylfaenol a brys, sy'n hanfodol er mwyn denu arian ymchwil o fri i Gymru a darparu sylfaen academaidd gref ar gyfer gofal sylfaenol a gofal brys
- Cyflawni ymchwil o ansawdd uchel sy'n mynd i'r afael â heriau cynyddol gymhleth a wynebir mewn gofal sylfaenol a gofal brys
- Mabwysiadu ymagwedd system gyfan integredig er mwyn gwella gwasanaethau, gan weithio ar y rhyngwyneb hanfodol rhwng gofal sylfaenol, brys a chymdeithasol
- Sicrhau bod cynlluniau "llwybrau at effaith" clir yn cael eu datblygu a'u rhoi ar waith i sicrhau'r budd mwyaf posibl i'r cyhoedd ac i gleifion o'n hymchwil, gan gynnwys lefel uchel o ymgysylltu, cyd-gynhyrchu ymchwil a chyfnewid gwybodaeth â'n holl randdeiliaid
- Meithrin capasiti ar gyfer ymchwil gofal sylfaenol a gofal brys yng Nghymru, gan gynnwys datblygu dulliau ymchwil, sgiliau, cleifion ac aelodau'r cyhoedd a'r gweithlu. Bydd hyn yn cynnwys datblygu prif ymchwilwyr newydd a chymorth i glinigwyr wrth iddynt ddod yn arweinwyr ymchwil. Bydd hyn yn sicrhau y gallwn barhau i fod â sylfaen academaidd gref ar gyfer gwasanaethau gofal sylfaenol a brys yng Nghymru yn y dyfodol.

**Nod:**

Gwella iechyd a lles pobl yng Nghymru trwy lunio ymchwil effaith uchel sy'n arwain y byd, sy'n berthnasol yn lleol mewn gofal sylfaenol a gofal brys.

**Thema**



**Thema 1:**

Gofal sylfaenol a gofal brys sy'n seiliedig ar werth

- WP1. Heintiau ac ymwrthedd gwrthficrobaidd
- WP2. Gofal brys, gofal heb ei drefnu a gofal cyn mynd i'r ysbyty
- WP3. Diogelwch cleifion



**Thema 2:**

Gofal iechyd a gofal cymdeithasol di-dor yn nes at y cartref

- WP4. Gofal yn nes at gymunedau
- WP5. Gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn
- WP6. Gofal Lliniarol a Chefnogol



**Thema 3:**

Lleihau anghydraddoldebau iechyd

- WP7. Sgrinio, atal a diagnosis cynnar
- WP8. Iechyd y geg a gofal deintyddol sylfaenol

**Gweithgareddau ar draws y seilwaith:**

Ymgysylltu, cydweithio a chyd-gynhyrchu  
Cynnwys ac ymgysylltu â'r cyhoedd a chleifion  
Trosi gwybodaeth, ymgysylltu â rhanddeiliaid, a chael effaith  
Cyfathrebu, cyhoeddusrwydd, effaith a throsglwyddo gwybodaeth  
Datblygu portffolio ymchwil  
Datblygu methodolegol  
Datblygu gweithlu a meithrin gallu

# Pwy yw pwy: cwrdd â'r tîm


## Strwythur llywodraethu

Mae PRIME yn gweithredu model arwain cynhwysol a lloerweddol, gyda chyfraniad amlddisgyblaethol i'r grŵp arweinyddiaeth (Cyfarwyddwyr) a'r Gweithgor a chymorth i Ymchwilyr ar Ddechrau eu Gyrfa (ECR) mewn rolau arwain (e.e. Pecynnau Gwaith cyd-arweiniol).

Mae ein pwyslais ar Gymru gyfan yn amlwg yn ein Cyfarfodydd Blynyddol sy'n cylchdroi ym Mhrifysgol Caerdydd, Prifysgol Abertawe (a gynhaliwyd yn bersonol yn 2022), Prifysgol Bangor a Phrifysgol De Cymru. Mae'r grŵp Arweinyddiaeth (cyfarwyddwyr) yn cael cymorth sylweddol a chyfeiriad strategol gan y Pwyllgor Llywio Cymru Gyfan (rhanddeiliaid, meysydd polisi a disgyblaeth), a'r Bwrdd Cynghori Rhyngwladol (academyddion o dramor a chyfranwyr PPI), a'r grŵp "SUPER" (cleifion a'r cyhoedd).

## Pwyllgor Llywio Cymru Gyfan

Mae Pwyllgor Llywio Cymru Gyfan Canolfan PRIME yn cyfarfod unwaith y flwyddyn ac mae'n cynnwys yr holl gyd-ymgeiswyr, arweinwyr pecyn gwaith ac arweinwyr thema/strategaeth trawsbynciol, cynrychiolwyr o'r trydydd sector ac aelodau lleyg. Mae'r Pwyllgor yn darparu cyngor a chyfeiriad ar gyfer strategaeth gyffredinol y Ganolfan, ynghyd â rôl graffu gefnogol, ac yn llywio ar gyfer blaenoriaethau'r llywodraeth, y cyhoedd a'r sector proffesiynol / gwasanaeth.



Directors












































WP Leads & management



Multidisciplinary stakeholder  
leads & representatives

# Grŵp Gweithredol

Mae'r Gweithgor Gweithredol yn cyfarfod yn fisol ac mae'n cynnwys Cyfarwyddwyr Canolfannau, Arweinwyr Pecynnau Gwaith a staff ymchwil a gwasanaethau proffesiynol a ariennir gan arian craidd. Mae'r grŵp yn sicrhau cydweithrediad traws-brifysgol effeithiol o'r tîm tuag at gyflawni nodau PRIME.

 <b>Adrian Edwards</b> Director, PRIME Centre Wales & Director of the Wales COVID Evidence Centre Professor of Primary Care, Cardiff University	 <b>Helen Snooks</b> Associate Director, PRIME Centre Wales Professor of Health Services Research, Swansea University	 <b>Carolyn Wallace</b> Associate Director & WP4 Care closer to communities, PRIME Centre Wales Director, Wales School for Social Prescribing Research Professor of Community Health, University of South Wales	 <b>Clare Wilkinson</b> Associate Director, PRIME Centre Wales Professor of General Practice, Bangor University	
 <b>Harry Ahmed</b> WP1: Infections & Antimicrobial Resistance Senior Clinical Lecturer in Epidemiology Director, GP Academic Fellow Scheme, Cardiff University	 <b>Kathryn Hughes</b> WP1: Infections & Antimicrobial Resistance Senior Clinical Lecturer in Primary Care, Cardiff University	 <b>Alison Porter</b> WP2: Emergency, Unscheduled & Pre-hospital Care Associate Professor, Swansea University	 <b>Andrew Carson-Stevens</b> WP3: Patient Safety Clinical Professor of Patient Safety & Quality Improvement, Cardiff University	 <b>Natalie Joseph-Williams</b> WP5: Patient-Centred Care Senior Lecturer in Improving Patient Care, Cardiff University
 <b>Fiona Wood</b> WP5: Patient-Centred Care Personal Chair (Medical Sociologist), Cardiff University	 <b>Annmarie Nelson</b> WP6: Supportive & Palliative care Marie Curie Professor of Supportive & Palliative Care, Cardiff University	 <b>Marlise Poolman</b> WP6: Supportive & Palliative care Senior Clinical Lecturer in Palliative Medicine, Bangor University	 <b>Kate Brain</b> WP7: Screening, Prevention & Early Diagnosis Professor of Health Psychology, Cardiff University	 <b>Ivor Chestnutt</b> WP8: Oral Health & Primary Dental Care Lecturer & Hon. Consultant in Dental Public Health, Cardiff University
 <b>Rabeea'h Aslam</b> Study Manager, Swansea University	 <b>Fadi Baghdadi</b> Research Associate Swansea University	 <b>Alison Cooper</b> Clinical Research Fellow, Cardiff University	 <b>Freya Davies</b> Clinical Research Fellow, Cardiff University	
 <b>Anwen Cope</b> Senior Clinical Lecturer & Honorary Consultant in Dental Public Health, Cardiff University	 <b>Bridie Evans</b> Research Officer Swansea University	 <b>Julia Hiscock</b> Research Fellow, Bangor University	 <b>Ashra Khanom</b> Research Fellow, Swansea University	
 <b>Mark Kingston</b> Senior Research Fellow, Swansea University	 <b>Kate Lifford</b> Research Associate, Cardiff University	 <b>Ruth Lewis</b> Senior Lecturer, Bangor University	 <b>Mark Lewellyn</b> Professor of Health & Care Policy, Director of WHSC, University of South Wales	
 <b>No Photo</b>	 <b>Delyth Price</b> Research Assistant Cardiff University	 <b>Simon Newstead</b> Research Assistant, University of South Wales	 <b>Ruth Northway</b> Professor of Learning Disability Nursing, University of South Wales	
 <b>Harriet Quinn-Scoggins</b> Research Associate, Cardiff University	 <b>Stacey Rees</b> Research Associate University of South Wales	 <b>Leigh Sanyaolu</b> Clinical Research Fellow, Cardiff University	 <b>Anna Torrens-Burton</b> Research Associate, Cardiff University	
 <b>Denitza Williams</b> Research Associate Cardiff University	 <b>Richard Evans</b> Administrator Bangor University	 <b>Jane Greenwell</b> Deputy Manager Cardiff University	 <b>Neil Jenkinson</b> Research Administrator Swansea University	
<b>Directors</b>	 <b>Marina MacDonald</b> Research & Support Officer WHSC, University of South Wales	 <b>Anne Surman</b> Finance & Communications Swansea University	 <b>Angela Watkins</b> Communications & Operations Manager Cardiff University	
<b>Work Package Leads</b>				
<b>Research Team</b>				
<b>Professional Services &amp; Support</b>				

# IBwrdd Cyngori Rhyngwladol

Mae ein Bwrdd Cyngori Rhyngwladol yn cynrychioli arweinwyr ym maes cynnwys cleifion ac ymchwil gofal sylfaenol, brys a gofal heb ei drefnu o bob cwr o'r byd.

Mae'r Bwrdd yn cyfarfod bob blwyddyn ac mae'n cynnwys ymchwilwyr uwch neu brofiadol a rhanddeiliaid eraill sydd wedi'u lleoli y tu allan i Gymru.


Mae'r Bwrdd yn darparu cyngor annibynnol ar ansawdd ein gwaith, sylwadau beirniadol ar gynnydd tuag at ei gerrig milltir a'i allbynnau, a llywio yng nghyd-destun datblygiadau rhyngwladol, polisi, a blaenoriaethau ymchwil.



**John Browne**  
Director of National Health Research,  
Ireland, Health Services Researcher, University  
College Cork, Ireland



**Debra Jackson**  
Professor of Nursing  
University of Technology Sydney, Australia




**Carolyn Canfield**  
Independent Citizen-Patient  
Vancouver, British Columbia, Canada



**Peter O'Meara**  
Professor of Paramedicine  
Monash University, Australia



**Niamh Cummins**  
Associate Professor in Public Health  
Public Health Programme, University of Limerick,  
Ireland



**Martin Quinn**  
Regional PPI Lead, Public Health Agency  
Londonderry, Northern Ireland



**Martin Dawes**  
Professor of Family Practice Medicine  
University of British Columbia, Canada



**Niro Siriwardena**  
Professor of Primary & Pre-Hospital Care  
University of Lincoln



**France Légaré**  
Professor of Family Practice Medicine  
University of Quebec, Canada



**Josep Vidal-Alaball**  
Professor of Primary Care Medicine  
University of Catalonia



**Magnus Hagiwara**  
Professor of Prehospital Emergency Care  
University of Borås, Sweden



**Emma Wallace**  
GP & Lecturer in General Practice  
University of Medicine & Health Sciences, Ireland



**Nefyn Williams**  
Professor in Primary Care  
University of Liverpool, England



# Metrigau Craidd

Cyfnod adrodd: 2022/2023

**Gwobr seilwaith  
Ymchwil Iechyd a  
Gofal Cymru i'r grŵp**



Cyllid  
uniongyrchol  
a ddyfarnwyd

**£0.9m**

Swyddi a  
grëwyd drwy  
gyllid  
uniongyrchol



## Grantiau a enillwyd yn ystod y cyfnod adrodd

Grantiau a enillwyd	Dan arweiniad y grŵp	Grŵp yn cydweithio
Nifer	<b>16</b>	<b>7</b>
Gwerth	<b>£3.0m</b>	<b>£5.7m</b>
Cyllid i Gymru	<b>£3.0m</b>	<b>£4.8m</b>
Cyllid i grŵp	<b>£2.4m</b>	<b>£0.4m</b>
Swyddi ychwanegol a grëwyd ar gyfer Cymru	<b>13</b>	<b>13</b>
Swyddi ychwanegol a grëwyd ar gyfer grŵp	<b>12</b>	<b>5</b>



Nifer y cyhoeddiadau



Nifer y digwyddiadau  
ymgysylltu â'r cyhoedd



Nifer y cyfleoedd i'r  
cyhoedd gymryd rhan

**Cyfnod adrodd:**  
**12 mis, 1af Ebrill 2022 i 31 Mawrth 2023**

Mae cyfleoedd cynnwys y cyhoedd yn cynnwys prosiectau sydd wedi recriwtio partneriaid sy'n aelodau cyhoeddus a digwyddiadau sy'n agored i aelodau'r cyhoedd.

Yn ogystal â'r digwyddiadau ymgysylltu â'r cyhoedd a restrir, cafwyd 17 cyflwyniad ar wahân gan ymchwilwyr i'r Grŵp SUPER rhwng Ebrill 2022 a Mawrth 2023. Cafwyd 7 cyfarfod grŵp SUPER llawn yn ogystal â chyfarfodydd is-grŵp a chyfarfodydd eraill.

# Ebrill 2020 - Mawrth 2023

Crynodeb o'r gweithgareddau

## Cynyddu maint yr ymchwil ar raddfa fawr, o ansawdd uchel

174 ceisiadau grant ymchwil a gyflwynwyd, 83 dyfarnwyd, a 20 arfaeth (48% cyfradd llwyddiant)



## Cynhyrchu Incwm

£26.9 miliwn wedi'i gynhyrchu mewn cyllid ymchwil a arweinir ac a gefnogir gan PRIME, gan gynnwys £16.7 miliwn i Gymru



## Cynyddu'r sylfaen dystiolaeth

271 o gyhoeddiadau mewn ymchwil gofal sylfaenol a brys, gan gynyddu'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer polisi ac ymarfer



## Cynyddu adnoddau

100 swyddi cyfwerth ag amser llawn a grëwyd yng Nghymru drwy brosiectau ymchwil a ariennir



## Cynnwys y cyhoedd a chleifion

645 creu cyfleoedd i gynnwys y cyhoedd



# Uchafbwyntiau newyddion ac effaith

## Ymchwilwyr o Gymru i helpu i ddatblygu ap a allai wella ansawdd bywyd cleifion cancer terfynol wael

Mae ymchwilwyr o Gymru yn rhan o dîm Ewropeaidd sydd wedi derbyn cyllid i greu ap a fydd yn helpu cleifion cancer â salwch angheuol i wneud penderfyniadau gwybodus am eu meddyginiaeth.

Mae llawer o gleifion â chanser yn derbyn meddyginiaeth i leihau gallu'r gwaed i geulo, gan leihau'r risg o thrombosis.

Mae'r meddyginiaethau hyn, a elwir yn antithrombotig, yn aml yn cael eu parhau tan ddiwedd oes claf, er gwaethaf sgîl-effeithiau megis gwaedu, a'r ansawdd bywyd gostyngol cysylltiedig.

Mae consortiwm Ewropeaidd, sy'n cael ei arwain ar y cyd gan Ganolfan Feddygol Prifysgol Leiden (LUMC) a Phrifysgol Caerdydd, wedi cael grant Horizon Europe o 6 miliwn ewro i greu ap ar-lein sy'n galluogi meddygon a chleifion i wneud penderfyniadau ar y cyd ynghylch parhau â'u meddyginiaeth gwrththrombotig, neu roi'r gorau iddi.

Mae'r ap ar-lein yn cael ei ddatblygu drwy brosiect SERENITY, a arweinir gan

Simon Noble, Athro Marie Curie mewn Meddygaeth Gefnogol a Lliniarol ym Mhrifysgol Caerdydd a deiliad grant Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru, ac Erik Klok, Athro Meddygaeth yn LUMC yn yr Iseldiroedd.

Mae sefydliadau a ariennir gan Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru – Canolfan Ymchwil Cancer Cymru, Canolfan PRIME Cymru a Banc Data Cyswllt Diogel Gwybodaeth Ddiennw (SAIL) – i gyd yn rhan o'r prosiect. Bydd y cymorth penderfynu ar-lein a'r ap yn defnyddio cwestiynau i gychwyn y sgwrs rhwng meddyg a chlaf ac asesu risg unigol y claf o waedu a thrombosis.

Dyweddodd yr Athro Simon Noble: "Dim ond yn anaml y rhoddir y gorau i'r meddyginiaethau hyn yn ystod cyfnod olaf bywyd. Mae hyn oherwydd diffyg tystiolaeth wyddonol, ond hefyd oherwydd nad yw marwolaeth a marw yn aml yn cael eu trafod yn ddigonol gan y meddyg sy'n trin.

"Rydyn ni eisiau teilwra'r ap cymaint â phosib i'r claf unigol. Bydd yn cymryd i ystyriaeth ffactorau fel rhyw, math o diwmor a hanes thrombosis / gwaedu yn y gorffennol. Bydd y cwestiynau yn yr ap yn cael eu haddasu yn unol â hynny. Ni fydd yr ap yn nodi a ddylai'r claf roi'r gorau i gymryd meddyginiaeth.

"Nid yw'r ap yn rhoi cyngor ond mae'n gwneud rhoi'r gorau i feddyginiaeth yn agored i drafodaeth," ychwanegodd yr Athro Noble.



## TOWARDS CANCER PATIENT EMPOWERMENT FOR OPTIMAL USE OF ANTITHROMBOTIC THERAPY AT THE END OF LIFE

Mae'r penderfyniad terfynol gyda'r claf, gan roi mwy o reolaeth iddynt dros eu proses afiechyd eu hunain. Yn bwysicaf oll, mae'n eu helpu i ystyried y dystiolaeth yng nghyd-destun eu hoffterau a'u gwerthoedd personol eu hunain."

Mae Prifysgol Caerdydd ac LUMC yn cydweithio â 14 o sefydliadau ar draws Ewrop i ddatblygu'r ap. Bydd dwy flynedd gyntaf y prosiect SERENITY yn cael ei neilltuo i ymchwil epidemiolegol ac ansoddol a datblygu'r ap. Bydd barn meddygon a chleifion yn ganolog i hyn. "Ar ôl hynny, byddwn yn profi'r ap yn ymarferol," meddai'r Athro Noble.

"Byddwn yn cymharu canlyniadau cleifion sydd wedi defnyddio'r ap â'r rhai nad ydynt wedi defnyddio'r ap. Ein disgwyliad yw y bydd yr ap yn arwain at ddefnydd priodol o feddyginiaeth antithrombotig, atal cymhlethdodau gwaedu ac arbedion cost sylweddol, yn ogystal â gwelliant yn ansawdd bywyd a boddhad cleifion â thriniaeth, eu gofawyr a'r gweithwyr gofal iechyd proffesiynol dan sylw."

Dyweddodd yr Athro Adrian Edwards, Cyfarwyddwr Canolfan PRIME Cymru:

"Rydym wrth ein bodd y bydd yr ymchwil hwn yn defnyddio'r arbenigedd yn PRIME ar gyfer gofal sy'n canolbwyntio ar y claf, gwneud penderfyniadau ar y cyd a gofal lliniarol a chefnogol. Bydd yn gwneud gwahaniaeth mawr i gleifion a theuluoedd ar gyfnodau hynod anodd o fywyd a salwch drwy eu galluogi i wneud penderfyniadau triniaeth yn seiliedig ar yr hyn sydd bwysicaf iddyn nhw'n bersonol."

I gael rhagor o wybodaeth am yr astudiaeth SERENITY, ewch i: <https://serenity-research.eu/>

## Meddygon Teulu mewn Adrannau Brys yn derbyn gwobr cynnwys y cyhoedd

Roedd ymchwilwyr PRIME a chydweithwyr cyfranwyr cyhoeddus o'r astudiaeth 'Meddygon Teulu mewn Adrannau Brys' yn falch iawn o dderbyn 'Gwobr Cynnwys y Cyhoedd' yng nghynhadledd flynyddol Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru a gynhaliwyd ar 13 Hydref 2022.

Mae Gwobrau Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru yn cydnabod cyflawniadau anhygoel cymuned ymchwil Cymru dros y flwyddyn ddiwethaf. Eleni, cafodd pedwar ymchwilydd nodedig eu hanrhydeddu o dan dri chategori gwobrau: Gwobr Effaith, Gwobr Seren Newydd Ymchwil, a Gwobr Cynnwys y Cyhoedd.

Mae'r wobr yn cydnabod y defnydd gorau un o ran cynnwys y cyhoedd mewn astudiaeth ymchwil iechyd neu ofal cymdeithasol, gan ddefnyddio Safonau'r DU ar gyfer Cynnwys y Cyhoedd.

Derbyniodd Julie Hepburn, aelod cynnwys y cyhoedd o'r astudiaeth, y wobr ar ran yr astudiaeth, a gyflwynwyd gan Ganolfan PRIME Cymru.

Nod yr astudiaeth yw gwerthuso sut mae meddygon teulu yn gweithio mewn Adrannau Brys ym mis Medi 2022.

Drwy bob cam ymchwil, o ddechrau astudiaeth hyd at gwblhau, mae cyfranogwyr cyhoeddus wedi bod yn aelodau cyfartal o'r tîm.



Watch Bridie Evans speak about public and patient involvement in the GPs in EDs study by clicking the link above

Mae'r beirniaid yn credu bod hyn yn enghraifft flaenllaw o'r dylanwad y gall cynnwys y cyhoedd ei gael ar ymchwil iechyd a gofal cymdeithasol. Roedd yn wych gweld y tîm yn croesawu Safonau'r DU ar gyfer Cynnwys y Cyhoedd ac yn canolbwyntio ar ddal a mesur yr effaith yr oedd cyfranogiad y cyhoedd yn ei chael trwy gydol oes yr astudiaeth.

Gallwch ddarllen mwy am yr astudiaeth Meddygon Teulu mewn Adrannau Brys ar wefan PRIME Centre Wales.



Dywedodd Bridie Angela Evans (sydd wedi ymddeol bellach), Arweinydd Cynnwys y Cyhoedd yng Nghanolfan PRIME Cymru:

"Rwy'n teimlo'n falch iawn ac wrth fy modd bod ein gwaith wedi cael ei gydnabod fel hyn. Rwy'n gobeithio ein bod ni wedi dangos i eraill sut y gallant wirioneddol gynnwys pobl yn eu timau ymchwil, croesawu'r rolau y gall aelodau o'r cyhoedd eu cyflawni mewn cydweithrediad a gwerthfawrogi'r cyfraniadau mae'r unigolion medrus a brwdfrydig hyn yn eu cynnig wrth gynnal ymchwil o ansawdd da."




## Derbyniodd Dr Ashra Khanom wobwr 'Seren newydd mewn ymchwil'

Mae Dr Ashra Khanom, Cymrawd Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru yng Nghanolfan PRIME Cymru, Prifysgol Abertawe wedi ennill gwobr Seren Newydd Arloesi Gyrfa Cynnar yng Ngwobrau Ymchwil ac Arloesi Prifysgol Abertawe 2022.

Gwahoddwyd ymchwilwyr o bob cwr o'r Brifysgol i gyflwyno ceisiadau, gyda dros 100 yn cael eu derbyn, ar draws y 14 categori gwobrau. Roedd pob cais yn enghraifft o ansawdd, perthnasedd ac effaith fyd-eang gadarnhaol ymchwil Prifysgol Abertawe a'i photensial i ysbrydoli.

Dywedodd Helen Snooks, Athro Ymchwil Gwasanaethau Iechyd ym Mhrifysgol Abertawe, a Chyfarwyddwr Cyswllt PRIME:



*A video featuring an interview with Dr Ashra Khanom and other award winners is available to view by clicking the link above*



Roeddwn i'n falch iawn o fynychu gwobrau ymchwil ac arloesi Prifysgol Abertawe eleni ac i gefnogi Ashra Khanom wrth iddi ennill gwobr am Ymchwilydd Gyrfa Cynnar - Seren Newydd.

Mae Ashra yn haeddu'r wobwr hon am ei hymrwymiad, ei brwdfrydedd a'i pherfformiad eithriadol - yn enwedig ennill grant sylweddol ar gyfer yr astudiaeth arloesol 'BE SURE' sy'n ymchwilio

i anghysondebau mewn gofal, profiad a chanlyniadau iechyd rhwng pobl wyn Prydain a phobl o leiafrifoedd ethnig pan fyddant yn ceisio gofal brys am anafiadau; ei gwaith gyda Cheiswyr Lloches a Ffoaduriaid (HEAR1, HEAR2); a gyda chleifion sy'n defnyddio gwasanaeth ambiwlans 999 yn rheolaidd (INFORM, STRETCHED)."



## Ni wnaeth gwarchod leihau heintiadau COVID-19 yng Nghymru: astudiaeth newydd yn cwestiynu buddion y polisi i bobl agored i newid

Roedd gwarchod pobl agored i niwed yn ganolog i'r ymateb i COVID-19, ond yn ôl [astudiaeth newydd o ddata iechyd](#), nid oes tystiolaeth ei fod o fudd i'r bobl agored i niwed roedd i fod i'w diogelu.

Mae tîm ymchwil o Brifysgol Abertawe wedi bod yn archwilio data o'r flwyddyn ar ôl i'r polisi gael ei gyflwyno ym mis Mawrth 2020, gan ddod i'r casgliad bod "diffyg effaith amlwg ar gyfraddau heintio'n codi cwestiynau ynghylch llwyddiant gwarchod".

Cyflwynwyd y polisi gwarchod i ddiogelu'r rhai y credid eu bod yn wynebu'r perygl mwyaf o gael niwed difrifol pe baent yn dal COVID-19, er enghraifft oherwydd cyflyrau blaenorol megis cancer neu'r meddyginiaethau roeddent yn eu cymryd. Roedd lleihau eu risg o ddal COVID-19 yn allweddol i ddiogelu pobl agored i niwed.

Archwiliodd yr ymchwilwyr y sefyllfa yng Nghymru, ond gan fod y polisi gwarchod yn debyg ledled y DU, bydd eu canfyddiadau'n berthnasol i wledydd eraill hefyd.

Cymru, a gedwir yn ddiogel ym Manc Data SAIL ym Mhrifysgol Abertawe.

Gan weithio gyda'r GIG, gwnaethant archwilio sut effeithiodd gwarchod ar heintiadau COVID-19, marwolaethau a nifer y bobl a dderbyniwyd i'r ysbyty ac unedau gofal dwys. Gwnaethant gymharu'r 117,000 o bobl a warchodwyd yng Nghymru â gweddill y boblogaeth – cyfanswm o 3 miliwn – nas gwarchodwyd. Y categorïau clinigol mwyaf yn y garfan a warchodwyd oedd cyflyrau anadlu difrifol (35.5%), therapi imiwnoataliedig (25.9%) a chanser (18.6%).

Defnyddiodd y tîm ddata o gofnodion iechyd electronig dienw a gesglir yn rheolaidd ar gyfer poblogaeth gyfan Cymru, a gedwir yn ddiogel ym Manc Data SAIL ym Mhrifysgol Abertawe.

Canfu'r ymchwilwyr y canlynol:

- Roedd marwolaethau a defnydd o ofal iechyd yn uwch ymhlith pobl a warchodwyd na'r boblogaeth gyffredinol, er y byddai hyn i'w ddisgwyl gan eu bod yn llai iach.
- Roedd cyfradd heintiadau COVID-19 hysbys yn uwch yn y garfan a warchodwyd (5.9%) nag ydoedd yn y boblogaeth gyffredinol (5.7%).

Adwaenir y prosiect fel EVITE Immunity, sydd wedi cael ei ariannu drwy'r Rhaglen Astudiaethau Craidd o Imiwnedd – a gafodd ei chomisiynu gan Brifysgol Birmingham ar ran UKRI; ac mae'n cynnwys cydweithrediadau â Phrifysgol Caerdydd, Prifysgol Warwick, Llywodraeth Cymru a GIG Cymru.

### Sylw yn y wasg:

- [Erthygl Newyddion y BBC](#)
- [Datganiad i'r wasg Prifysgol Abertawe](#)



[Meddai'r Athro Helen Snooks](#) o Ysgol Feddygaeth Prifysgol Abertawe, a fu'n arwain yr ymchwil:

"Ni ddaeth ein hastudiaeth o hyd i unrhyw dystiolaeth o leihau heintiadau COVID-19 flwyddyn ar ôl i'r polisi gwarchod gael ei gyflwyno. Mae hyn yn codi cwestiynau ynghylch buddion polisi gwarchod i bobl agored i niwed.

"Mae'r gwaith yn parhau i gymharu'r canlyniadau hyn, yn ogystal ag adroddiadau pobl am eu hansawdd bywyd, â grŵp cyfatebol o bobl a oedd yn agored i niwed yn glinigol, ond na chawsant eu dewis i warchod.

"Mae'n hanfodol cael cymaint o dystiolaeth â phosib o effaith polisiau er mwyn i ni ddysgu gwersi ar gyfer y dyfodol."




## Astudiaeth CARIAD yn cael sylw ar BBC Radio 4 Inside Health

Cafodd astudiaeth CARIAD sydd ar waith yng Ngogledd Cymru sylw ar gyfer pennod lawn o raglen BBC Radio 4 Inside Health, a ddarlledwyd ar 9 Awst. Cafodd Dr Marlise Poolman, Uwch Ddarlithydd Clinigol mewn Meddygaeth Lliniarol ym Mhrifysgol Bangor, a chyd-arweinydd Ymchwil Gofal Lliniarol a Chymorth yn PRIME ei chyfweld ar gyfer y rhaglen, ochr yn ochr â nyrs gofal lliniarol arbenigol astudiaeth CARIAD, Vicky ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, a chyfranogwr yn yr astudiaeth, Mark, a gafodd ei hyfforddi gan Vicky ac a fu'n gofalu am ei fam gartref.

Mae astudiaeth CARIAD yn canolbwyntio ar weinyddu meddyginiaeth yn ôl yr angen yn amserol ar gyfer cleifion sy'n marw ac sy'n cael gofal gartref, yn enwedig a yw estyniad rôl gofalywyr lleyg yn ymarferol ac yn dderbyniol yn y DU.

Mae'r bennod ar gael i wrando arni ar wefan BBC Radio 4.



## Yr Athro Carolyn Wallace yn cyflwyno tystiolaeth i'r Senedd

Cyflwynodd yr Athro Carolyn Wallace, Cyfarwyddwr Cyswllt PRIME Canolfan Cymru, a Chyfarwyddwr Ysgol Ymchwil Rhagnodi Cymdeithasol Cymru dystiolaeth ar ragnodi cymdeithasol ac anghydraddoldebau iechyd meddwl i'r Senedd ar 19 Mai.

Siaradodd yr Athro Wallace am sut y gall atebion cymunedol a rhagnodi cymdeithasol fynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd meddwl.

Yn dilyn pwyllgor y Senedd, dywedodd yr Athro Wallace: "Roedd yn fraint fawr cael gwahoddiad i gyflwyno tystiolaeth i'r Senedd ar ragnodi cymdeithasol yng Nghymru. Roedd gan yr Aelodau ddiddordeb mawr yn y modd yr oedd WSSPR wedi cyfrannu at y dystiolaeth nid yn unig yng Nghymru ond yn rhyngwladol."

[Gallwch ddarganfod mwy am WSSPR drwy ymweld â'n gwefan: \[www.wsspr.wales\]\(http://www.wsspr.wales\)](#)

## Yr Athro Kate Brain yn cyflwyno tystiolaeth i'r Senedd

Fe wnaeth Kate Brain, Athro Seicoleg Iechyd a chyd-arweinydd PRIME ar gyfer ymchwil sgrinio, atal a diagnosis cynnar gyflwyno tystiolaeth i'r Senedd ar 8 Rhagfyr 2022 mewn ymateb i'r Grŵp Trawsbleidiol ar Ganser (CPGC) Ymchwiliad i anghydraddoldebau a chanser yng Nghymru. Mae'r CPGC yn cynnal ymchwiliad i ganser ac anghydraddoldebau, gan ganolbwyntio ar effaith amddifadedd ar nifer yr achosion o ganser, profiad o wasanaethau canser, a chanlyniadau.

Meddai Kate Brain (i'w gweld yn y llun isod): "Roedd Sesiwn Dystiolaeth y Senedd yn gyfle pwysig i rannu gwybodaeth gyfredol am anghydraddoldebau o ran mynediad cleifion at ddiagnosis canser, gan dynnu sylw at heriau mawr ac atebion posibl ar ffurf ymyriadau ymddygiadol sy'n seiliedig ar dystiolaeth sy'n deillio o'n hymchwiliad PRIME."



## Astudiaeth PRIME wedi'i enwebu ar gyfer Gwobrau Canser Moondance

Cyrhaeddodd Astudiaeth Ymddygiad Iechyd a Cheisio Cymorth COVID (CABS) y rhestr fer yng Ngwobrau Canser Moondance eleni yn y categori ymwybyddiaeth ac ymgysylltu â'r cyhoedd.

Arweiniwyd astudiaeth CABS gan Brifysgol Caerdydd (PI: Kate Brain), mewn cydweithrediad â Cancer Research UK, Coleg y Brenin Llundain, Prifysgol Surrey ac Iechyd Cyhoeddus Cymru, ac fe wnaethant gasglu a dadansoddi tystiolaeth ledled y DU am effaith y pandemig coronafeirws ar iechyd pobl ac ymddygiad ceisio cymorth.

Mae eu canfyddiadau wedi bod yn sail i ymgyrchoedd arobryn yng Nghymru i godi ymwybyddiaeth y cyhoedd o arwyddion a symptomau canser. Roedd rhan o weithgareddau lledaenu'r astudiaeth yn cynnwys cynhyrchu animeiddiad fideo a gwefan ar gyfer y cyhoedd.

Cefnogwyd y gwaith hwn gan y Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol fel rhan o Ymateb Cyflym Ymchwil ac Arloesedd y DU i COVID-19.



## Network Sgyrsiau CASCADE: Rhwydwaith Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV)

Yn ddiweddar, fe wnaeth Dr Sarah Wallace, uwch-gymrawd ymchwil, a'r Athro Emily Underwood-Lee ym Mhrifysgol De Cymru recordio podlediad gyda CASCADE ym Mhrifysgol Caerdydd fel rhan o Gyfnewid Cymru am y rhwydwaith ymchwil Rhwydwaith Ymchwil Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol Cymru (VAWDASV) y gwnaethant ei gyd-sefydlu.

Mae rhwydwaith ymchwil VAWDASV yn cael ei gefnogi gan Ganolfan PRIME Cymru. Mae rhagor o wybodaeth am y rhwydwaith ar eu gwefan a lanswyd yn ddiweddar: [www.vasdasv.cymru](http://www.vasdasv.cymru)


- Wallace, S. & Underwood-Lee, E. (2022). Violence Against Women, Domestic Abuse and Sexual Violence (VAWDASV): Setting the research priorities for Wales. Final Report.
- Underwood-Lee, E. & Wallace, S. (2022). Violence Against Women, Domestic Abuse and Sexual Violence (VAWDASV) survivor engagement Wales. Final Report.



## Papur PRIME yn ennill y papur a ddarllenwyd fwyaf yn 2022 yn y British Journal of General Practice

Mae cyhoeddiad PRIME Centre Wales wedi ennill anrhydedd y papur ymchwil a ddarllenwyd fwyaf yn ystod y flwyddyn gan y British Journal of General Practice ar gyfer 2022. Cafodd y papur ei ysgrifennu gan fyfyrwr meddygol, Amy Clark a chafodd ei oruchwylio gan ymchwilydd Feddyg Teulu PRIME Dr. Kathryn Hughes, ynghyd â chydweithwyr o Brifysgol Caerdydd, Prifysgol Rhydychen, a Phrifysgol Bryste. A Phrifysgolion Bryste, gan ddangos ymrwymiad PRIME i ddatblygu'r genhedlaeth nesaf o academyddion clinigol gofal sylfaenol.

Rhannodd y papur ganfyddiadau o'r astudiaeth gan PRIME, Prifysgol Caerdydd, a oedd yn asesu cywirdeb system goleuadau traffig NICE mewn plant sy'n cyflwyno i bractis cyffredinol y DU. Fe wnaeth y tîm ganfod efallai na fydd yr offeryn a ddefnyddir gan feddygon teulu i helpu i nodi plant difrifol sâl yn canfod neu'n eithrio salwch difrifol yn gywir.



Dadansoddodd yr astudiaeth ddata o fwy na 6,700 o achosion a daeth i'r casgliad "na ellir dibynnu ar system Golau Traffig y Sefydliad Cenedlaethol Rhagoriaeth Iechyd a Gofal (NICE) a ddefnyddir yn eang" a'i fod yn "anaddas" i'w defnyddio fel offeryn penderfyniadau clinigol.

Trafododd y beirniaid y deg papur uchaf mewn podlediad BJGP arbennig a sylwadau:

"Mae'n debyg bod papur goleuadau traffig NICE wedi newid ymarfer yn sylweddol. Y papur hwn yw'r enghraifft berffaith na ddylech chi wneud rhagdybiaethau bod pethau [offer clinigol] 'yn dda'. Mae hon hefyd yn enghraifft wych, ac anarferol, o brosiect myfyriwr meddygol yn ennill, felly llongyfarchiadau i Amy a thîm yr astudiaeth."





# Cynnwys y cyhoedd a chleifion

Mae Grŵp SUPER PRIME yn ymgorffori cynnwys y cyhoedd a chleifion yn seilwaith ymchwil PRIME. Mae SUPER yn grŵp amrywiol o bobl sy'n byw ac yn gweithio mewn sawl rhan drefol a gwledig o Gymru, gyda phrofiad byw o ystod o gyflyrau iechyd ac arbenigedd mewn cyfraniad PPI o brosiectau ymchwil unigol i aelodaeth o Fyrddau ariannu.

Mae'r Grŵp yn cwrdd o leiaf bob chwarter ac mae Ymchwilwyr o holl brifysgolion cyfansoddol PRIME wedi cyflwyno eu cynigion i'r grŵp SUPER. Ym mhob cyfarfod mae 3 neu 4 ymchwilydd yn cyflwyno eu syniadau a'u cynigion ymchwil ar wahanol gamau datblygu o syniadau cynnar, i ddylunio i geisiadau drafft mwy penodol. Mae aelodau'r grŵp SUPER yn rhoi sylwadau ar y cynigion, yn gwneud awgrymiadau, yn rhannu arfer da a'u profiad byw. Mae'r adborth gan ymchwilwyr (ar ffurf templed) wedi bod yn gadarnhaol, gyda newidiadau a gwelliannau wedi'u gwneud i gynigion.

Rhwng Ebrill 2022 a Mawrth 2023 mae 17 o gyflwyniadau ar wahân gan ymchwilwyr wedi'u gwneud i'r Grŵp SUPER. Cafwyd 7 cyfarfod grŵp SUPER llawn yn ogystal â chyfarfodydd is-grŵp a chyfarfodydd eraill. Mae'r Grŵp hefyd yn gweithio'n agos gyda Chanolfan Cymorth Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru sy'n darparu adnoddau ar gyfer PPI mewn ymchwil.

Nod y Grŵp yw cadw ei weithrediadau yn gyfredol ac mae'n cynnal adolygiad blynyddol o'i waith ei hun. Mae'r rhain

wedi'u diweddarau ers y pandemig ac wedi ymgorffori adborth a dderbyniwyd. Mae gan y Grŵp hefyd drefniant recriwtio agored sy'n cael ei ymgorffori yn ei dudalen we ar wefan PRIME.

Gwahoddwyd y grŵp SUPER i gyflwyno poster yng nghyfarfod blynyddol Fforwm Ymchwil a Datblygu y GIG RDF23, a gynhaliwyd yn Newcastle ym mis Mai. Teitl eu poster yw Gweithio'n well gyda'n gilydd: sut i ddatblygu adnoddau i gefnogi cynnwys y cyhoedd mewn ymchwil (gweler gyferbyn).

**Working better together:  
Developing resources to support public involvement  
in PRIME research**

Members of the SUPER group and Dr Bridie Evans

**Why we did this**

Collaborating with public contributors to undertake health services research requires all partners to use skills and knowledge effectively. Resources and guidance, such as the UK Public Involvement Standards, are available to research teams.

PRIME Centre Wales is committed to effective public involvement in all its research. The SUPER (Service Users for Primary and Emergency care Research) group, identified need for training materials to support PRIME researchers.

This poster describes how we explored existing and potential resources to support PRIME to achieve effective public involvement in research.

**What we did**

SUPER is a group of patients and public members supporting PRIME to involve people in research. We established a SUPER subgroup to carry out this project.

We undertook a scoping review of existing training and resources identified through internet searching and network contacts. We used findings to develop an action plan for creating and disseminating materials to support PRIME research and encourage collaboration within research teams.

**What we learnt**

The scoping review identified a range of available resources (one-off sessions, modules, programmes, 1 hr to 16 hrs) and learning activities (online, face-to-face, seminars, workshops, conferences). Some involved assessment and some were linked to the UK Public Involvement Standards. There was no consensus on differences between training, teaching and awareness-raising.

We agreed need for a coordinated suite of resources (despite and existing) for PRIME researchers. Our action plan included six steps to support researchers and build collaboration between research team members:

1. Develop 'What is SUPER' leaflet
2. Develop 'What is public involvement in research' leaflet
3. Develop 'Guidance for researchers presenting at SUPER' leaflet
4. Develop communication plan including signposting to existing information and training resources
5. Review impact - what difference has it made and how can it improve
6. Make normal

**Our reflections**

SUPER is responding to an identified need for resources so that PRIME researchers can be supported to undertake high quality, collaborative public involvement in research in line with best practice.

More information:  
s.e.evans@swins.ac.uk  
<http://bit.ly/3028795>



Aelodau'r grŵp SUPER ar y panel ar gyfer sesiwn 5: 'Rhannu ein gwirioneddau - profiadau byw aelodau SUPER' yng Nghyfarfod Blynyddol PRIME 2022.

## Rhagnodi cymdeithasol i bobl sydd â phroblemau iechyd parhaus yng Nghwm Taf Morgannwg



### Rhagnodi cymdeithasol i bobl sydd â phroblemau iechyd parhaus yng Nghwm Taf Morgannwg

#### Cefndir y prosiect

Roedd y prosiect hwn yn gydweithrediad rhwng tîm o Ganolfan PRIME Cymru, Prifysgol Caerdydd, a staff a defnyddwyr gwasanaeth o Wasanaeth Gwella Lles Cwm Taf Morgannwg (WISE).

Nod y tîm dan arweiniad Dr Freya Davies, cymrawd clinigol meddyg teulu, gyda'r Athro Fiona Wood, cymdeithasegydd meddygol, a Dr Kate Lifford, Cyswllt Ymchwil, i gyd wedi'u lleoli yn PRIME, oedd deall beth oedd pobl yn meddwl y gallai gwasanaeth fel WISE ei wneud iddyn nhw, sut roedden nhw'n meddwl y gellid ei wella, a sut roedden nhw'n profi cymryd rhan. Fel rhan o'r WISE, cynigiwyd cyfle i bobl fynychu amrywiaeth o weithdai celfyddydau creadigol ac fe wnaethom ni fynychu dau o'r gweithdai hyn i weld a chlywed sut roedden nhw'n gweithio.

#### Hyfforddiant

Roeddem am ddysgu mwy am sut y gallem ni gydweithio gan olygu'n llawn gydag ystod o wahanol bobl sydd â diddordeb mewn WISE. Fe wnaethom ofyn i'r sefydliad Cyd-gynhyrchu Cymru ddog i gyflwyno hyfforddiant i aelodau o staff y brifysgol a staff o dîm WISE. Mynychodd un ar bymtheg aelod o staff a rhoddwyd adborth gwych am y sesiwn a'i pherthnasedd i'w gwaith (yn y llun gyferbyn).

#### Digwyddiad ymgysylltu â chyd-gynhyrchu

Yna fe wnaeth cyd-gynhyrchu Cymru ein helpu i gynllunio sesiwn ar gyfer staff a defnyddwyr gwasanaeth i ddarganfod mwy am beth oedd lles yn ei olygu iddyn nhw a sut y gallai WISE gyfrannu at hyn. Dyma'r crynodeb o'r hyn y gwnaethom ni ei ddarganfod.

**WISE**  
Wellness Improvement Service

Workshops and 1:1 interviews  
10 WISE users  
Over 4 weeks  
At the start of their WISE journey

**WHAT WE DID**

Support Good health  
Social engagement  
Relaxation

**WELLBEING**  
WHAT IS BENEFICIAL AND DETRIMENTAL?

Stigma  
Poor health  
Isolation  
Financial constraints

**EXPECTATIONS**  
OF THE SERVICE AND ITS COACHES

Health Education  
Local & Accessible  
Social Connections  
Referral Pathways  
